

Ysgol Botwnnog

Newyddion

Daeth mis Medi, daeth y gwyliau haf i ben a daeth y tywydd cynnes. Daeth yn amser croesawu pawb yn ôl i'r ysgol a chroesawu rhai am y tro cyntaf. Disgyblion Blwyddyn 7 gobeithio eich bod yn setlo yma, felly hefyd dau athro newydd sydd wedi ymuno â ni y tymor yma. Mae Mr. Gareth Hodgson o Chwillog wedi ymuno â'r Adran Chwaraeon a Mr. Cai Boardman sydd bellach wedi ymgartrefu ym Mhwlheli wedi ymuno â'r Adran Wyddoniaeth. Croeso cynnes i'r ddau ohonoch i Ysgol Botwnnog.

Llongyfarchiadau cynnes i holl ddisgyblion Blwyddyn 11 y llynedd ar eich canlyniadau TGAU. Pob dymuniad da i chwi yn y dyfodol.



Lois Llywelyn Williams a enilliodd 11 A* yn ei TGAU

Golff



Tom Froom yn arddangos siaced a thei tîm golff ieuenctid Cymru.

Llongyfarchiadau i Tom Froom am ennill cystadleuaeth Golff yr ysgol gyda 41 o bwyntiau. Llongyfarchiadau hefyd i Thomas Allman a'i bartner Ifan Rees Jones (cyn ddisgybl) am ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth Shelter Cymru a Tom Froom a Cai Jones (cyn ddisgybl) am ddod yn ail. Bydd y pedwar yn chwarae yn y rownd derfynol yn Celtic Manor yn ystod hanner tymor mis Hydref.

Llwyddiant Llenyddol

Llongyfarchiadau calonnog i Lois Llywelyn Williams ar ennill y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Powys yng Nglyn Ceiriog ym mis Gorffennaf. Y mae Lois wedi cipio sawl Tlws yr Ifanc mewn Eisteddfodau lleol ond dyma'r tro cyntaf iddi ddod adref gyda Medal Ddrama. Cystadleuaeth agored i bob oed oedd hon a derbyniodd ganmoliaeth gan y beirniad Aled Jones Williams.



Llinos Tyne gyda chadair Bardd yr Ifanc Eisteddfod Bontnewydd

Yn fuddugol yng Ngŵyl Fawr Aberteifi am ysgrifennu stori ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7-9 roedd Luned Hughes, Gwen Hughes a Llinos Tyne ac yn yr Adran Farddoniaeth Owain Roberts, Cenin Sion a Siwan Jones. Llongyfarchiadau calonnog! Luned Hughes Blwyddyn 9 oedd enillydd Tlws Yr Ifanc yn Eisteddfod Llanfachreth, Meirionnydd a Bardd Yr ifanc yn Eisteddfod y Bontnewydd oedd Llinos Tyne Blwyddyn 9. Gwych iawn genodrydym yn falch ohonoch.

Hafod Lon



Cai o Ysgol Hafod Lon yn mwynhau ei hun gyda Laura Brookes o Fl 10

Ar ddiwedd y tymor diwethaf roedd nifer o ddisgyblion Blwyddyn 10 wedi gwahodd rhai o ddisgyblion Hafod Lon i'r ysgol ar gyfer pnawn o hwyl. Roeddynt wedi paratoi gemau a gwahanol weithgareddau ar gyfer eu cyfraniad cymunedol yn y cwrs BAC Cymreig. Diolch i staff Hafod Lon am eu cefnogaeth ac i Ms Kim Williams o Cestyll Cim Castles am fenthyl y castell bownsio. Roedd pawb i weld wedi mwynhau.

Trip Hanes



Dosbarth Hanes Bl 11 tu allan i Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Buom yn ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar yr 11eg o Orffennaf. Ar ôl y daith lafurus o basio Trawsfynydd a Chadair Idris i Aberystwyth, cawsom bwt o hanes y llyfrgell, a pha fath o bethau maent yn eu cadw yno megis hen fapiau, papurau newydd, lluniau ac yn amlwg llyfrau. Ar ôl hynny cawsom daith o amgylch y llyfrgell i'r gwahanol rannau gan gynnwys llefydd nad oedd y cyhoedd yn cael ymweld â nhw. Cawsom hefyd gyfle i weld arddangosfa o waith Dylan Thomas. Wedi i ni ddychwelyd i'r ystafell gyfarfod, cawsom gyfle i drafod hanes protestiadau Merched Beca sef sail ein gwaith cwrs. Efallai y rhan mwyaf arbennig oedd cael bodio Beibl ysgrifenedig gan William Morgan yn 1588. Hefyd cawsom gyfle i edrych ar ddarnau ysgrifenedig o gyfnod terfysgoedd Beca, oedd yn cynnwys llythyrau ysgrifenedig gan Merched Beca. Roedd yn daith arbennig ar gyfer ein gwaith cwrs! Diolch i Miss Sioned Huws am fynd â ni.

Gwenllian Hughes 11 Mad

Profiad Gwaith



Llŷr Williams o Flwyddyn 10 yn rhoi gwersi offerynol yn yr ysgol tra ar brofiad gwaith gyda Chanolfan Gerdd William Mathias.

Unwaith eto eleni mae ein diolch ni'n fawr fel ysgol i fusnesau a chyflogwyr lleol yr ardal am eu parodrwydd i groesawu ein disgyblion am wythnos o brofiad gwaith. Mae'n bwysig i ddisgyblion Blwyddyn 10 ddatblygu eu sgiliau ac i feithrin eu hannibyniaeth. Diolch i bawb a gymerodd ran a gobeithio y cawn gydweithio eto yn y dyfodol.